Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2020.
Minutes of the Asset Management Committee held on 17th March 2020.

	Yn bresennol: Y Cynghorwyr Baker, Haddy, Keddie a Richards (Cadeirydd).	**Present:** Cllrs Baker, Haddy, Keddie and Richards (Chair).
	Mynychu: Clerc y Dref Mr G. Thomas.	**In attendance**: Town Clerk Mr. G. Thomas.
AMC/19/20	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb.** Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd derbyn ymddiheuriadau gan: Ms Sian Glyn-Jones, oherwydd salwch.	**Apologies for Absence.** It was proposed seconded and resolved to accept apologises from: Ms Sian Glyn-Jones, due to illness.
AMC /20/20	**Datganiadau o Ddiddordeb.** Y Cyng Keddie – eitem 5(b) ar yr agenda.	**Declarations of Interest.** Cllr Keddie in relation to agenda item 5(b)
AMC /21/20	**Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**	**Chairs announcements.**
AMC /21/20(a)	Soniodd y Cadeirydd am ymddiswyddiad diweddar y Cynghorydd Beech o Gyngor y Dref a olygai fod swydd wag bellach ar y Pwyllgor. Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei diolch am yr holl waith yr oedd y Cynghorydd Beech wedi'i roi i weithrediad y Pwyllgor, yn enwedig ei arbenigedd mewn materion iechyd a diogelwch. Dywedodd y Cyng Richard y bydd colled fawr ar ôl y Cynghorydd Beech.	The Chair commented on the recent resignation of Cllr Beech from the Town Council which meant that there was now a vacancy on the Committee. The Chair wished to record her thanks for all the work that Cllr Beech had given to the operation of the Committee, in particular his specialism in health and safety matters. Cllr Richard stated that Cllr Beech would be greatly missed.
AMC /21/20(b)	COFID – 19 Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau am faterion oedd yn codi oherwydd COFID - 19. Roedd Clerc y Dref wedi ei chynghori bod bron pob digwyddiad a oedd wedi ei ragarchebu yn Neuadd y Dref ers cryn amser ac ar gyfer y dyfodol wedi'u canslo. Trafodwyd y sefyllfa gyda'r yswirwyr, ond, ar hyn o bryd, nid oeddynt yn debygol o dalu am unrhyw golledion o dan bolisi'r Cyngor gan nad oedd COFID-19 yn glefyd a hysbyswyd pan gymerwyd y polisi allan. Ar ôl ystyried holl oblygiadau'r pandemig, cynigiwyd, eiliwyd a	COVID – 19 The Chair advised Members of issues arising out of the COVID – 19 outbreak. The Town Clerk had advised her that nearly all Town Hall bookings going forward, for some time, had been cancelled and that the situation had been discussed with insurers who at present were not likely to cover any losses under the Town Council policy as COVID-19 was not a notified disease when the policy was taken out. Having taken account of the implications of the pandemic it was proposed, seconded and

phenderfynwyd bod y Pwyllgor Rheoli Asedau yn cytuno ar y canlynol: -

a) dirprwyo awdurdod i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â Maer y Dref a'r Dirprwy Faer, i awdurdodi taliadau ar ganolfan gost o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Rheoli Asedau
b) cau Neuadd y Dref, y Siambr a Swyddfa Cyngor y Dref, o ddydd Sadwrn 21 Mawrth 2020 am gyfnod o ddeuddeg wythnos tan ddydd Llun 15 Mehefin 2020 fel y rhagnodir gan gyngor Llywodraeth y DU.
c) nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r golled incwm bosibl i weithrediadau Cyngor y Dref.

Cytunodd pawb.

resolved that the Asset Management Committee agrees to:-

a) delegate authority to the Town Clerk, in consultation with the Town Mayor and Deputy Town Mayor, to authorise payments on cost centre within the remit of the Asset Management Committee
b) the closure of the Town Hall, Chamber and Town Council Office, as from the Saturday 21st March 2020 for a period of twelve weeks until Monday 15th June 2020 as prescribed by UK Government advice.
c) note the position in respect of the potential loss of income to Town Council's operations.

All agreed.

AMC/22/20 **Cofnodion y Cyfarfod.**

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y Pwyllgor Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 10/12/19 fel cofnod cywir.

Cytunodd pawb.

Minutes of Meeting.

It was proposed, seconded and resolved that the Chair be authorised to sign the minutes of the Asset Management Committee held on the 10/12/2019 as a correct record.

All agreed.

AMC/23/20 **Adroddiadau.**

AMC/23/20(a) Amnewid boeler.

Ystyriodd yr aelodau dendrau a dderbyniwyd i amnewid boeler yn Neuadd y Dref.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor Rheoli Asedau yn cytuno fel a ganlyn:-

a) cynnal cyfarfod adolygu gydag AW Renewables i drafod cwmpas y cynigion er mwyn sicrhau bod y gwaith yn unol â'r gyllideb bosibl sydd ar gael, fel y blaenoriaethwyd gan Gyngor y Dref.
b) cynnwys Davies Partnership, peirianwyr gwasanaethau M&E yn y trafodaethau hyn a

Reports.

Boiler replacement.

Members considered tenders received for boiler replacement in the Town Hall.

It was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee agrees to: -

a) a review meeting with AW Renewables to discuss the scope of the proposals in order to bring the works in line with the potential budget available, as prioritised by the Town Council.
b) include Davies Partnership, M&E services engineers in these discussions and

c) yn amodol ar y cyfarfod adolygu, penodi AW Renewables i ymgymryd ag adnewyddu'r boeler yn Neuadd y Dref.

Cytunodd pawb.

c) subject to the review meeting appoint AW Renewables to undertake the boiler renewal in the Town Hall.

All agreed.

AMC/23/20(b)

Caniadau Cloc Neuadd y Dref.
Ystyriodd yr aelodau gais gan berchennog y Gwesty Brenhinol, Bridge Street i dawelu caniadau cloc Neuadd y Dref rhwng hanner nos a 6.00 y bore.
Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor Rheoli Asedau:-

a) Yn cytuno i osod dyfais distewi yn ystod y nos.
b) Yn cyfarwyddo Clerc y Dref i gysylltu â pherchennog y Gwesty Brenhinol i sicrhau datrysiad boddhaol i bob parti, gyda'r Gwesty Brenhinol yn gyfrifol am y gost.

Cytunodd pawb.

Town Hall Clock Chimes.
Members considered a request from the proprietor of the Royal Hotel, Bridge Street to silence the Town Hall clock chimes during the hours of 12.00 midnight and 6.00 am
It was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee: -

a) Agrees to the installation of a night silencer device.
b) Instructs the Town Clerk to liaise with the proprietor of the Royal Hotel to achieve a satisfactory solution for all parties with the cost being covered by the Royal Hotel.

All agreed.

AMC/23/20(c)

Goleuo'r Bont Gadwyn.
Ystyriodd yr aelodau gais gan berchennog Gwesty'r Chain Bridge ynghylch cynnig i adfer goleuadau addurniadol ar hyd y bont. Ar ôl rhoi sylw dyledus i gyngor a ddarparwyd gan yswirwyr Cyngor y Dref, cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor Rheoli Asedau:-

a) yn cytuno mewn egwyddor i oleuo'r bont dan yr amod bod,
b) unrhyw waith sy'n gysylltiedig â goleuo'r bont yn cael ei wneud o dan y meini prawf dylunio cenedlaethol ar gyfer safonau pontydd troed ac,
c) y byddai holl gost y gosod a'r gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol yn cael ei dalu gan berchennog Gwesty'r Chain Bridge am byth.

Chainbridge illumination.
Members considered a request from the proprietor of the Chain Bridge Hotel regarding a proposal to reinstate decorative lights to silhouette the bridge. Having taken due regard of advice provided from the Town Council's insurers, it was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee: -

a) agrees in principle to the illumination of the bridge subject to the proviso that,
b) any works associated with lighting of the bridge would be carried out under the national design criteria for footbridges standards and,
c) all cost of the installation and future maintenance would be

		covered by the proprietor of the Chain Bridge Hotel in perpetuity.
	Cytunodd pawb.	All agreed.
AMC/23/20(d)	Cadw Cymru'n Daclus – Lleoedd yn yr ardal ar gyfer natur. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd na fyddai'r Pwyllgor Rheoli Asedau yn mynd ymlaen â'r prosiect hwn yn ystod y pandemig. Cytunodd pawb.	Keep Wales Tidy - Local Places for Nature. It was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee does not pursue this project during the current pandemic. All agreed.
AMC/24/20	**Rhan B** Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylai'r Pwyllgor Rheoli Asedau eithrio'r wasg a'r cyhoedd ar yr eitem ar yr agenda sy'n ymwneud â Siop 1 Neuadd y Dref Llangollen ar y sail y byddai datgelu hyn yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes fydd yn cael ei drafod. Cytunodd pawb.	**Part B** It was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee exclude the press and public on agenda item relating to Shop 1 Llangollen Town Hall on the basis that disclosure thereof would be prejudicial to the public interest by reason of the confidential nature of the business to be transacted. All agreed.
AMC/25/20	Siop 1, Neuadd y Dref Ystyriodd yr aelodau gais gan denant Siop 1, Neuadd y Dref, i amrywio'r ystod o nwyddau sy'n cael eu cynnig yn yr adeilad. Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd bod y Pwyllgor Rheoli Asedau yn cytuno fel a ganlyn: - a) caniatáu gwerthu'r nwyddau diffiniedig i'w bwyta oddi ar y safle am gyfnod prawf o ddeuddeng mis, b) gwrthwynebu'n gryf unrhyw ymgais i gaffael trwydded ar gyfer yr adeilad, a fyddai'n groes i ddefnydd yr adeilad fel y'i diffinnir yn y brydles.	Shop 1, Town Hall Members considered a request from the tenant of Shop 1, Town Hall, to vary the range of goods being on offer within the premises. It was proposed, seconded and resolved that the Asset Management Committee agrees to: - a) allow the sale of the defined goods for consumption off site for a trial period of twelve months, b) strongly oppose any attempt to acquire an on licence for the premises, which would be contrary to the use of the premises as defined in the lease.
AMC/26/20	**Gohebiaeth.** Nid oedd unrhyw faterion i'w trafod dan yr eitem hon ar yr agenda	**Correspondence.** There were no matters considered under this agenda item.

Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, daeth y cyfarfod i ben am 6.45y.h

There being no further items the meeting closed at 6.45pm